# Defnyddio rhifau: Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

## Pecyn cymorth myfyrwyr

Archwiliwch y cysyniad o fylchau cyflog rhwng y rhywiau gan ddefnyddio data byd go iawn o set ddata'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.






Office for National Statistics

# Cynnwys

Trosolwg

## Briffiau prosiect

### Mathemateg: Dadansoddi data a delweddu

- Crynodeb ac amcanion dysgu
- Dechrau ar y briff
- Defnyddio'r offer
- Pethau i feddwl amdanynt

### Daearyddiaeth: Gwahaniaethau daearyddol

- Crynodeb ac amcanion dysgu
- Dechrau ar y briff
- Defnyddio'r offer
- Pethau i feddwl amdanynt

### Cymdeithaseg: Agweddau a chredoau

- Crynodeb ac amcanion dysgu
- Dechrau ar y briff
- Dylunio eich arolwg
- Defnyddio'r offer
- Pethau i feddwl amdanynt

# Trosolwg

**Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw’r gwahaniaeth mewn cyflog canolrif rhwng dynion a merched. Nid yw'r mesur hwn yn ystyried cyflog cyfartal am waith cyfartal, ac nid yw'n fesur o wahaniaethu ar sail cyflog.**

Archwiliwch y cysyniad o fylchau cyflog rhwng y rhywiau, gan ystyried sut a pham y cânt eu mesur. Defnyddiwch offeryn archwilio'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a data byd go iawn o set ddata’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion i archwilio data am enillion. Byddwch yn gallu gweld tueddiadau, pethau annormal a phatrymau yn y data, ac yn y pen draw ennill dealltwriaeth o wahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau yn y DU.



# Trosolwg

## Offer a setiau data dan sylw

Offeryn archwilio'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau (yn Saesneg): Offeryn rhyngweithiol i ddarganfod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gwahanol swyddi, a chyfran y dynion a merched sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd.



Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (yn Saesneg): Fe'i cynhelir ym mis Ebrill bob blwyddyn i gael gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion ac oriau a weithiwyd i weithwyr. Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn seiliedig ar sampl o swyddi gweithwyr a gymerwyd gan Gyllid a Thollau EF a chofnodion Talu Wrth Ennill. Nid yw Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn cynnwys yr hunan-gyflogedig ac nid yw ychwaith yn cynnwys gweithwyr na thalwyd yn ystod y cyfnod cyfeirio.

# Trosolwg

## Adnoddau ychwanegol

- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU: 2023 (yn Saesneg)
- Erthygl IEA: Mae adrodd ar fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cynhyrchu rownd arall o ystadegau camarweiniol (yn Saesneg)
- Papur Agweddau Cymdeithasol Prydain: Merched a gwaith - Ydy agweddau yn adlewyrchu newidiadau polisi? (yn Saesneg)
- SYG: Deall y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU (yn Saesneg)
- Data'r SYG: Incwm a chyfoeth
- Data'r SYG: Cyflogaeth a'r farchnad lafur
- Erthygl Ymddiriedolaeth Nuffield: Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y GIG yn Lloegr: sut mae'n amrywio yn ôl ethnigrwydd? (yn Saesneg)
- Data'r SYG: Bylchau cyflog ethnig, DU: 2012 i 2022 (yn Saesneg)

# Mathemateg: Dadansoddi data a delweddu

**Eich nod yw archwilio data am enillion i weld tueddiadau, pethau annormal a phatrymau yn y data, a chael dealltwriaeth o wahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau yn y DU.**

## Amcanion dysgu

- Deall y cysyniad o fylchau cyflog rhwng y rhywiau a'u goblygiadau.
- Ennill hyfedredd wrth ddefnyddio offer ystadegol i ddadansoddi data.
- Datblygu sgiliau mewn technegau delweddu data.
- Ymarfer dehongli data.



# Mathemateg: Dadansoddi data a delweddu

## Dechrau arni

Enghreifftiau o gwestiynau i'w hateb neu ragdybiaethau i'w profi

- Mae bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn amrywio ar draws gwahanol alwedigaethau, gyda rhai mathau o alwedigaethau yn dangos mwy o wahaniaethau nag eraill.
- Mae amrywiad rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau, gyda rhai rhanbarthau yn dangos lefelau uwch o wahaniaeth o'u cymharu ag eraill.
- Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ehangach ar lefelau uwch o fewn sefydliadau.
- Mae galwedigaethau lle mae merched yn bennaf yn gweithio yn dueddol o fod ag enillion cyfartalog is o'u cymharu â galwedigaethau lle mae dynion yn bennaf yn gweithio.

## Defnyddio'r offer

Defnyddiwch offer a set ddata'r SYG i'ch helpu i ateb eich cwestiwn neu i brofi eich rhagdybiaeth. Efallai yr hoffech:

- gymharu enillion rhwng y rhywiau mewn gwahanol alwedigaethau neu ranbarthau
- cyfrifo mesurau o duedd ganolog a gwasgariad
- creu cynrychioliadau gweledol o'r data, er enghraifft gan ddefnyddio histogramau neu arddangosiadau plot blwch

# Mathemateg: Dadansoddi data a delweddu

## Pethau i feddwl amdanynt

- Sut y byddwch yn diffinio ac yn mesur bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn ystadegol?
- Pa alwedigaethau neu ranbarthau penodol y mae gennych ddiddordeb mewn ymchwilio iddynt ar gyfer y prosiect hwn a sut y byddwch yn cymharu enillion rhwng y rhywiau o fewn y galwedigaethau neu'r rhanbarthau a ddewiswyd?
- Pa gynrychioliadau gweledol y byddwch yn eu creu a sut y byddant yn helpu i holi a deall y data?
- Pa offer ystadegol y byddwch yn eu defnyddio i ddadansoddi'r data a pham?
- Pa mor gywir a dibynadwy yw eich canfyddiadau ac a allwch fesur yr ansicrwydd?

# Cymdeithaseg: Agweddau a chredoau

Eich nod yw asesu effaith canfyddiadau cymdeithasol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, trwy ddylunio a chynnal eich arolwg eich hun am agweddau a chredoau ar rywedd a gwaith. Gallwch ddadansoddi'r data a gasglwch i nodi patrymau a chydberthnasau rhwng canfyddiadau ac agweddau tuag at rywedd a gwaith a data bwlch cyflog.

## Amcanion dysgu

- Dylunio a gweithredu arolwg.
- Dadansoddi a nodi patrymau a chydberthnasau rhwng canfyddiadau ac agweddau a data cyflog.
- Cymhwyso dulliau ymchwil cymdeithasegol i ddehongli canfyddiadau a dod i gasgliadau.
- Archwilio agweddau cymdeithasol a'u goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle.



# Cymdeithaseg: Agweddau a chredoau

## Dechrau arni

Enghreifftiau o gwestiynau i'w hateb neu ragdybiaethau i'w profi

- Pa ffactorau hanesyddol a chymdeithasol sydd wedi cyfrannu at barhad y bwlch cyflog rhwng y rhywiau?
- Pa rôl y mae stereoteipiau a rhagfarnau wrth chwarae o ran parhau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau?
- Pa bolisïau a deddfwriaeth sydd ar gael ac sy'n ceisio mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau?
- Beth yw rhai strategaethau y gall unigolion a sefydliadau eu rhoi ar waith i helpu i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau?



# Cymdeithaseg: Agweddau a chredoau



## Dyluniwch eich arolwg

Defnyddiwch yr hyn rydych yn ei wybod am arfer gorau mewn ymchwil cymdeithasegol i lywio cynllun eich arolwg, gan ystyried sut y gall geiriad cwestiynau effeithio ar ddealltwriaeth a rhagfarn. Efallai yr hoffech ymchwilio i rai enghreifftiau o eiriad cwestiwn a'r effaith o ran dibynadwyedd a dilysrwydd ymatebion arolwg.

Bydd angen i chi gynnwys cwestiynau priodol yn canolbwyntio ar:

- ganfyddiadau o yrfaoedd addas i ddynion a merched
- disgwyliadau ynghylch negodi cyflog
- barn ar degwch y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

# Cymdeithaseg: Agweddau a chredoau

## Defnyddio'r offer

Defnyddiwch offer y SYG i ddadansoddi'r data i ateb eich cwestiwn neu brofi eich rhagdybiaeth. Efallai yr hoffech:

- drafod rôl rhywedd yn y gweithle gyda'u cyd-ddisgyblion, gan archwilio stereoteipiau, rhagfarnau a heriau cyffredin, er enghraifft, dewisiadau gyrfa, trafodaethau cyflog ac absenoldeb rhiant
- ymchwilio i enghreifftiau o eiriad cwestiwn a sut y gall effeithio ar ddibynadwyedd a dilysrwydd ymatebion arolwg, er enghraifft, sut y gall cwestiynau ddylanwadu ar ymatebion, cefnogi rhagfarn neu helpu neu lesteirio dealltwriaeth
- ymchwilio i dechnegau samplu mewn arolygon a'r effaith ar ganlyniadau arolygon
- edrych ar y bwlch oedran rhwng y rhywiau o fewn rhan benodol o gymdeithas

# Cymdeithaseg: Agweddau a chredoau

## Pethau i feddwl amdanynt

- **Ble byddwch yn dod o hyd i ddata ychwanegol os bydd ei angen arnoch?** Sut y byddwch yn cyfuno hynny â data'r SYG?
- **Os byddwch yn defnyddio ffynonellau data ychwanegol, sut y byddwch yn asesu eu dilysrwydd?** A fyddwch yn rhoi'r un pwysau iddyn nhw â data gan y SYG?
- **Pwy fyddwch yn ei gynnwys yn eich arolwg?** Sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cael trawstoriad da o ymatebion gan wahanol rannau o gymdeithas? Os yw eich arolwg yn cynnwys pobl o grŵp penodol yn bennaf, sut fyddwch yn rhoi cyfrif am hynny?

# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau daearyddol

Eich nod yw cael cipolwg ar y croestoriad rhwng ffactorau daearyddol ac anghydraddoldebau economaidd. Byddwch yn defnyddio'r data i greu graffeg seiliedig ar fap i archwilio'r gwahaniaethau mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau ar draws gwahanol ranbarthau. Byddwch hefyd yn cynnal ymchwil annibynnol i ymchwilio i ffactorau cyfrannol posibl, megis galwedigaeth, lefelau addysg a ffactorau diwylliannol.

## Amcanion dysgu

- Deall amrywiadau rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn y DU.
- Datblygu hyfedredd wrth ddefnyddio mapiau, siartiau a graffiau i ddelweddu gwahaniaethau daearyddol.
- Dadansoddi rhesymau posibl y tu ôl i wahaniaethau rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau.
- Archwilio croestoriad ffactorau daearyddol ag anghydraddoldebau economaidd.

# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau daearyddol



## Dechrau arni

Enghreifftiau o gwestiynau i'w hateb neu ragdybiaethau i'w profi

- Sut mae amrywiadau rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn amlygu ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol o fewn y DU?
- Beth yw'r ffactorau sylfaenol sy'n cyfrannu at wahaniaethau rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau, a sut mae'r ffactorau hyn yn amrywio'n ddaearyddol?
- A yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fwy mewn rhanbarthau sydd â chyflog cyfartalog uwch?
- Sut mae tueddiadau mewn galwedigaeth yn amrywio rhwng rhanbarthau yn y DU, a pha rôl y mae'n ei chwarae o ran parhau â bylchau cyflog rhwng y rhywiau? A yw'r gwahaniaethau rhanbarthol yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU yn cydberthyn â'r mathau o alwedigaeth sy'n amlwg yn yr ardaloedd hynny?
- Sut mae ffactorau daearyddol megis rhaniadau trefol-wledig neu agosrwydd at ganolbwyntiau economaidd mawr yn dylanwadu ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau?

# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau daearyddol

## Defnyddio'r offer

Defnyddiwch offer y SYG i ddadansoddi’r data er mwyn ateb eich cwestiwn neu brofi eich rhagdybiaeth. Efallai yr hoffech:

- archwilio cydberthnasau posibl rhwng bylchau cyflog rhwng y rhywiau a galwedigaeth, lefelau addysg a ffactorau diwylliannol
- defnyddio meddalwedd mapio i greu mapiau sy’n dangos bylchau cyflog rhwng y rhywiau ar draws rhanbarthau’r DU, gan anodi mapiau â chanfyddiadau ac arsylwadau allweddol a nodi patrymau a chydberthnasau
- ymchwilio i sut mae ffactorau daearyddol yn croestorri ag anghydraddoldebau economaidd i barhau bylchau cyflog rhwng y rhywiau
- ymchwilio i rôl daearyddiaeth wrth lunio anghydraddoldebau economaidd a strategaethau posibl ar gyfer mynd i’r afael â gwahaniaethau rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau

# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau daearyddol

## Pethau i feddwl amdanynt

- O ble y byddwch yn dod o hyd i ddata ychwanegol os bydd ei angen arnoch a sut y byddwch yn cyfuno hynny â data'r SYG?
- Pa alwedigaethau neu ranbarthau penodol y mae gennych ddiddordeb mewn ymchwilio iddynt ar gyfer y prosiect hwn a sut y byddwch yn cymharu enillion rhwng y rhywiau o fewn y galwedigaethau neu'r rhanbarthau a ddewiswyd?
- Pa gynrychioliadau gweledol y byddwch yn eu creu a sut y byddant yn helpu i holi a deall y data?
- Pa mor gywir a dibynadwy yw eich canfyddiadau?